DYDDIEDIG

05 Awst 2024

# MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH

rhwng

**Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil**

a'r

**Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Nod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yw amlinellu'r cytundeb y daethpwyd iddo rhwng y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("**y Comisiwn**") a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ("**y Coleg**"). Nid yw'r Memorandwm hwn yn effeithio ar swyddogaethau presennol y partïon nac ar y gwaith o gyflawni'r swyddogaethau hynny; nid yw chwaith yn diwygio unrhyw bolisïau na chytundebau eraill sy'n ymwneud â'u gweithgareddau.

1.2 Mae'r Memorandwm hwn, a ategir gan gytundeb rhannu data ar wahân, yn disgrifio sut bydd y naill barti a'r llall yn cyflawni ei swyddogaeth mewn perthynas â dynodiad y Coleg gan Weinidogion Cymru i gynghori'r Comisiwn wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd strategol i hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg, fel y'i nodwyd yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Mae'r Memorandwm hwn yn nodi cyfres o egwyddorion, ffyrdd o weithio a dulliau cyfathrebu y cytunwyd arnynt. Nid yw'r Memorandwm yn ymdrin ag agweddau eraill ar gydweithio rhwng y Comisiwn a'r Coleg.

1.3 Ni fwriedir i'r Memorandwm hwn rwymo mewn cyfraith.

## 2. Y partïon

<u>Y Comisiwn</u>

2.1 Sefydlwyd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn") gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022") fel corff corfforedig i ariannu a rheoleiddio addysg drydyddol[1] ac ymchwil yng Nghymru.

2.2 Mae Deddf 2022 yn nodi un ar ddeg o ddyletswyddau strategol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn, drwy ei gyllid a'i waith rheoleiddio, hybu neu annog canlyniadau penodol a nodir yn y dyletswyddau strategol hynny. Un o'r dyletswyddau hyn (y cyfeirir ati yn adran 9 y Ddeddf) yw hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bwriad y ddyletswydd hon yw ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gymryd pob cam rhesymol, nid yn unig i ateb y galw am addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg, ond hefyd i feithrin y galw am addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg ac annog cyfranogiad ynddi. Yn benodol, mae'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i'r Comisiwn:

- (a) annog y galw am addysg drydyddol Gymreig a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfranogiad ynddi;
- (b) cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol Gymreig a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb y galw;
- (c) annog darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg—
  - (i) gan ddarparwyr cofrestredig yng Nghymru, a
  - (ii) gan bersonau eraill sy'n darparu addysg drydyddol a gyllidir gan y Comisiwn neu a sicrheir fel arall ganddo.

<u>Y Coleg</u>

2.3 Fel yr amlinellir yn erthyglau cymdeithasu'r Coleg, amcan y Coleg fydd, er lles y cyhoedd, hybu dysg a gwybodaeth drwy:

[1] Addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant sy'n addas i ofynion personau sydd wedi cyrraedd 16 oed

a) hyrwyddo, cynnal, datblygu a chynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a iaith Gymraeg a gweithgareddau perthynol mewn addysg uwch, sefydliadau addysg bellach ac addysg barhaus yng Nghymru, gan weithio gyda sefydliadau addysg uwch, addysg bellach, ysgolion a sefydliadau partner yng Nghymru a thrwyddynt; a

b) hyrwyddo, cynnal, datblygu a chynllunio dysgu, caffael, gwella a gloywi sgiliau cyfathrebu iaith Gymraeg i bobl yn gyffredinol gyda sefydliadau addas yng Nghymru a mannau eraill.

2.4 Mae adran 9 Deddf 2022 hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi person i gynghori'r Comisiwn ar gyflawni ei ddyletswydd i hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar 5 Mehefin 2023, dynodwyd y Coleg i ymgymryd â'r swyddogaeth honno gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg. Caiff y llythyr hwnnw ei gyhoeddi gan y Comisiwn. Rhaid i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol gan y Coleg o 1 Ebrill 2024 ymlaen.

3. **Cyfres o egwyddorion y cytunwyd arnynt**

3.1 Mae'r partïon yn cytuno ar yr egwyddorion a ganlyn:

- Mae'r Coleg a'r Comisiwn yn cydnabod annibyniaeth ei gilydd a byddant yn parchu gweithgareddau a chylchoedd gwaith ei gilydd. Mae'r ddau barti'n deall bod y Memorandwm hwn yn diogelu rhyddid y ddau barti i gyflawni eu cylchoedd gorchwyl eu hunain.
- Bydd y partïon yn cyfathrebu'n agored â'i gilydd, gan ymateb yn brydlon i ymholiadau gan ei gilydd, ac anelu i ddatrys unrhyw anghydfod mewn modd cyfeillgar ac adeiladol.
- Mae'r partïon yn cytuno i gadw at ofynion statudol ac arferion gorau, gan gynnwys cydymffurfio â deddfau a safonau perthnasol gan gynnwys deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth, diogelu data a rheolau caffael perthnasol.
- Bydd y naill barti a'r llall yn sicrhau bod aelodau staff yn deall cynnwys y Memorandwm hwn a'r egwyddorion ar gyfer cydweithio, a'u bod yn deall swyddogaethau'r sefydliad arall a'r fframwaith statudol y mae'n ofynnol iddynt weithredu oddi mewn iddo.

**4. Y berthynas yn ymarferol**

4.1 Nodweddir y berthynas waith rhwng y partïon gan gyswllt rheolaidd a pharhaus a chyfnewid gwybodaeth yn agored.

4.2 **Cyfarfodydd a ffyrdd o weithio:**

4.2.1 Bydd cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Comisiwn a'r Coleg yn unol â'r amserlen hon y cytunwyd arni:

a) Cyfarfod blynyddol fydd yn cynnwys y Prif Weithredwyr a'r Cadeiryddion er mwyn trafod cyngor a ddarparwyd i'r Comisiwn gan y Coleg.

b) Cyfarfodydd rheolaidd (o leiaf unwaith bob tymor academaidd) rhwng uwch swyddogion y Comisiwn a'r Coleg i drafod cyngor a ddarparwyd a, phan fo hynny'n briodol, i drafod cyngor sydd ar ddod.

c) Cyfarfodydd ad hoc yn barhaus rhwng swyddogion ar unrhyw lefel i drafod materion sydd o ddiddordeb i'r ddau barti.

4.2.2 Bydd cyfarfodydd ffurfiol a amlinellir yn 4.2.1a) a 4.2.1b) yn cael eu cofnodi, a'r cofnodion yn cael eu llunio gan swyddogion y Comisiwn a'r Coleg bob yn ail.

4.2.3 Bydd y naill barti a'r llall yn rhoi gwybod i'r parti arall yn brydlon am unrhyw weithgareddau y maent yn eu cyflawni, neu'n ystyried eu cyflawni, sydd y tu allan i'r rhaglen waith y cytunwyd arni (gweler 4.2.1a) a allai orgyffwrdd â buddiannau'r Memorandwm hwn.

4.2.4 Ni fydd gan y Coleg statws sylwedydd ar Fwrdd y Comisiwn na'i bwyllgorau strategol cysylltiedig ac ni fydd gan y Comisiwn statws sylwedydd ar Fwrdd y Coleg na'i bwyllgorau strategol cysylltiedig. Nid yw hyn yn atal Bwrdd y Coleg rhag gwahodd y Comisiwn neu ei swyddogion i gyfarfod(ydd) penodol o Fwrdd y Coleg neu unrhyw un o'i bwyllgorau strategol, nac yn atal y Comisiwn rhag gwahodd y Coleg neu ei swyddogion i gyfarfod(ydd) penodol o Fwrdd y Comisiwn neu unrhyw un o'i bwyllgorau strategol.

4.2.5 Mae'r Comisiwn a'r Coleg yn cytuno nad yw'n briodol bod ag aelodau Bwrdd sy'n eistedd ar Fyrddau'r ddau sefydliad.

**4.3 Cyngor y Coleg i'r Comisiwn o dan ei swyddogaeth ddynodedig:**

4.3.1 Bydd gan y Coleg ddisgresiwn eang wrth benderfynu pa gyngor, o dan ei swyddogaeth ddynodedig, a fyddai, yn ei farn ef, yn 'cynorthwyo'r Comisiwn' i gyflawni ei ddyletswydd strategol i hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall y Comisiwn ofyn am gyngor gan y Coleg yn ei swyddogaeth ddynodedig. Pan ddarperir cyngor gan y Coleg i'r Comisiwn (boed wedi'i gychwyn gan y Coleg neu'n gyngor y gofynnwyd amdano gan y Comisiwn), dim ond pan fydd yn ymwneud â'r canlynol y caiff ei ystyried yn gyngor o dan y statws dynodedig:

(a) hybu, cynnal, datblygu a chynllunio addysg drydyddol a ddarperir yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg,
(b) hybu caffael a gwella sgiliau Cymraeg,
(c) cynnal, datblygu, cynllunio a darparu gweithgareddau i gefnogi caffael a gwella sgiliau Cymraeg, a
(d) cydlafurio rhwng darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru mewn perthynas â'r materion a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (c).

4.3.2 Os bydd y Coleg yn cynnig cyngor mewn perthynas â rhai o ddyletswyddau neu swyddogaethau strategol eraill y Comisiwn, gellid barnu ei fod yn gyngor dynodedig os bydd y Coleg o'r farn y bydd y cyngor o fudd i'r Comisiwn o ran cyflawni ar y materion hynny a nodir ym mharagraff 4.3.1.

4.3.3 Os bydd y Coleg yn methu â chynghori'r Comisiwn am unrhyw reswm, bydd y Coleg yn ysgrifennu at y Comisiwn o fewn amserlen y cytunir arni er mwyn egluro'i resymau dros beidio â chynnig y cyngor y gofynnir amdano.

4.3.4 Bydd cyngor gan y Coleg i gynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni ei ddyletswyddau fel y'i disgrifir yn y Ddeddf yn cael ei ddarparu mewn sawl ffurf gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
(a) Nodiadau cyngor strategol cyffredinol y bwriedir iddynt gwmpasu cyfnod o sawl blwyddyn.
(b) Nodiadau cyngor strategol yn ymwneud â sefydliadau penodol, meysydd yn y sector addysg drydyddol a/neu faterion thematig ar draws y sector addysg drydyddol cyfan.
(c) Ymatebion i ymgyngoriadau sy'n ymwneud â materion sydd o fewn cwmpas y swyddogaeth ddynodedig.
(d) Cyngor gweithredol ac ad hoc sy'n cael ei gofnodi mewn cyfarfodydd rhwng y Coleg a'r Comisiwn.

4.3.5 Pan fydd y Coleg yn rhoi cyngor i'r Comisiwn, rhaid iddi fod yn amlwg pan fydd y cyngor hwnnw'n cael ei roi o dan ei swyddogaeth ddynodedig. Pan roddir cyngor o'r fath, bydd y Comisiwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'r cyngor hwnnw ac i ba raddau y bydd yn ymateb iddo. Mater i fyrddau'r Coleg a'r Comisiwn yw materion yn ymwneud â chymeradwyo penderfyniadau i roi cyngor ac i ymateb i'r cyngor hwnnw.

4.3.6 Bydd cyngor gan y Coleg i'r Comisiwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Coleg fel arfer. Bydd ymateb y Comisiwn i gyngor ffurfiol gan y Coleg yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Comisiwn fel arfer. Mater i'r Coleg fydd y penderfyniad i gyhoeddi'r cyngor mewn trafodaeth gyda'r Comisiwn gan gydbwyso tryloywder, cyfrinachedd darparwyr a budd y cyhoedd.

4.3.7 Pan gyhoeddir cyngor, bydd y Coleg yn trafod cynnwys y cyngor gyda'r Comisiwn cyn i'r cyngor gael ei ddarparu a'i gyhoeddi'n ffurfiol. Os bydd i gyngor oblygiadau ar gyfer sefydliad arall, ymgynghorir â'r sefydliad hwnnw.

4.3.8 Er y gwneir pob ymdrech i gytuno ar flaenraglen ar gyfer cyngor, gallai amgylchiadau godi lle gall y Coleg ddarparu cyngor neu lle gall y Comisiwn ofyn am gyngor y tu allan i'r flaenraglen y cytunwyd arni. Pan fydd amgylchiadau o'r fath yn codi, cynhelir trafodaeth brydlon ynghylch yr amserlen ar gyfer cynnig ac ystyried cyngor.

4.3.9 Pan roddir cyngor i'r Comisiwn, bydd y ddau barti'n cytuno ar amserlen resymol ar gyfer ymateb.

4.3.10 Bydd y Comisiwn a'r Coleg ill dau yn ymdrechu i lunio crynodeb blynyddol y cytunir arno ar y cyd o'r gweithgareddau, y cyngor a ddarparwyd a'r ymatebion. Bydd yr adroddiad blynyddol hwn, fydd yn manylu ar y gwaith o weithredu dynodiad y Coleg a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn, yn cael ei gyflwyno i Fwrdd y Comisiwn ac i Fwrdd y Coleg.

4.3.11 Bydd y naill barti a'r llall yn gwneud pob ymdrech resymol i gynorthwyo'i gilydd gydag unrhyw gais i'r graddau ei bod yn rhesymol ymarferol gwneud hynny, a bod hynny'n ymwneud â swyddogaeth y naill barti a'r llall fel y'u nodir yn y Ddeddf.

## 5 Cymodi os bydd anghytundeb

5.1 Bydd pob parti'n ceisio datrys unrhyw anghytundebau mewn modd cyfeillgar ar lefel weithredol. Os na ellir datrys anghytundeb ar y lefel honno, dylai uwch reolwyr y sefydliadau geisio datrys unrhyw anhawster.

## 6 Adolygu

6.1 Bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn cael ei adolygu flwyddyn ar ôl ei lofnodi. Wedi hynny, caiff ei adolygu a'i ddiweddaru, os bydd angen, bob dwy flynedd.

6.2 Gellir addasu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn drwy gydsyniad y partïon yn gweithredu drwy swyddogion awdurdodedig.

6.3 Gall unrhyw barti derfynu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn drwy roi o leiaf dri mis o rybudd ysgrifenedig i'r parti arall.

6.4 Bydd effaith i'r Memorandwm hwn oni bai a hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu nad y Coleg bellach yw'r 'person priodol' i roi 'cyngor perthnasol' i'r Comisiwn.

_____________________________ Dyddiad: 08 Awst 2024

(SIMON PIROTTE, Ar ran Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)

_____________________________ Dyddiad: 05 Awst 2024

(IOAN MATTHEWS, Ar ran y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)